Gwybodaeth i weithwyr cyfreithiol proffesiynol

CANCER RESEARCH UK

Ein Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau

Helpwch i drechu canser ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol



Gyda'n gilydd rydym yn curo canser



Eich helpu chi i helpu eich cleientiaid

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi cyflwyniad i weithwyr cyfreithiol proffesiynol i Wasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau Cancer Research UK.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am y gwasanaeth hwn, cysylltwch â'ch rheolwr partneriaeth cymynrodd yn uniongyrchol neu e-bostiwch LPMs@cancer.org.uk

Am ragor o wybodaeth, ewch i **cruk.org/legalhub**

Rydym am greu byd lle mae pawb yn byw yn hirach, yn byw bywydau gwell, yn rhydd rhag ofn canser.

Mae canser yn ddi-baid. Ond rydym ninnau hefyd. Mewn labordai ar hyd a lled y wlad, rydym yn cynnal ymchwil o safon fyd-eang i atal, canfod a thrin mwy na 200 o fathau o ganser drwy waith mwy na 6,000 o wyddonwyr, meddygon a nyrsys.

Ac mae'n gweithio. Dros y 50 mlynedd diwethaf, mae ein gwaith wedi helpu i ddyblu cyfraddau goroesi canser yn y DU, gan roi mwy o amser gwerthfawr i bobl fod gyda'u hanwyliaid.

Ond mae angen i ni wneud mwy. Bydd bron i 1 o bob 2 o bobl yn cael canser yn ystod eu hoes.* Gall pob un ohonom gefnogi'r ymchwil a fydd yn ei guro. Mae ein datblygiadau arloesol yn achub ac yn gwella bywydau, a thrwy helpu i hwyluso rhoddion mewn Ewyllysiau, gallwch ein helpu i achub hyd yn oed mwy.

Gyda'n gilydd, rydym yn trechu canser.



Stori Paul

Cafodd Paul ddiagnosis o lewcemia myeloid cronig yn 34 oed. Mae'n gadael cymynrodd fel y gall pobl yn y dyfodol elwa o ymchwil - yn union fel y mae e wedi.

"Rydw i mor ddiolchgar i Cancer Research UK. Fe wnaethant y gwaith geneteg cynnar a oedd yn sail i ddatblygiad Glivec, sy'n driniaeth effeithiol yn erbyn lewcemia, ac hefyd yn erbyn rhai canserau stumog prin. Rwyf wedi elwa o ymchwil yn y gorffennol, a thrwy adael rhodd yn fy Ewyllys, gallaf gefnogi darganfyddiadau yn y dyfodol."

Paul, yn gadael cymynrodd o fywydau hirach, gwell

*cruk.org/lifetimerisk


Mae Rhoddion mewn Ewyllysiau yn ysgogi darganfyddiadau

Mae Rhoddion mewn Ewyllysiau yn ariannu dros draean o'r gwaith rydym yn ei wneud i achub a gwella bywydau drwy ymchwil i ganser, gwybodaeth a dylanwad. Felly, mae eich cefnogaeth i helpu i baratoi'r rhoddion cymynrodd hyn yn hanfodol.

Gallwch ddefnyddio'r enghreifftiau hyn gyda'ch cleientiaid i'w helpu i benderfynu pa werth rhodd sy'n iawn iddyn nhw.

Gallai £3,000

brynu **ffan echdynnu wyddonol** i gadw ein gwyddonwyr yn ddiogel rhag mygdarth a bioberyglon yn y labordy.



Gallai £7,500

brynu **deorydd** i gadw samplau celloedd yn gynnes fel y gall ein gwyddonwyr astudio sut y byddent yn ymddwyn yn y corff.



Gallai 20% o ystâd £300,000

brynu **peiriant dilyniannu DNA**, sy'n caniatáu i'n gwyddonwyr ddadansoddi llawer iawn o DNA yn gyflym iawn, gan eu helpu i ddysgu mwy am ganser, yn gyflymach.



Mae addewidion yn pweru cynnydd

Diolch i gynnydd mewn atal, diagnosis a thriniaeth canser, mae dros filiwn o fywydau wedi'u hachub rhag canser yn y DU ers canol y 1980au.*

Trwy gynorthwyo eich cleientiaid i adael rhodd yn eu Hewyllys, gallwch ein helpu i achub hyd yn oed rhagor.

Fe wnaethom helpu i brofi'r cysylltiad rhwng tybaco a chanser, gan atal miliynau o farwolaethau ledled y byd.

Arweiniodd ein hymchwil at ddatblygiad y brechlyn feirws papiloma dynol (HPV), y disgwylir iddo atal hyd at 90% o ganserau ceg y groth yn y DU.

Mae 8 o bob 10 o bobl sy'n derbyn cyffuriau canser yn y DU yn derbyn cyffur a ddatblygwyd gennym neu gyda ni.**





*cruk.org/millionlives
**Falcaro et al, 2024
***Amcangyfrif yn seiliedig ar ddadansoddiad Cancer Research UK o ddata NHS England yn 2023.

Ffyrdd y gall eich cleient roi

Ar ôl gofalu am eu hanwyliaid, efallai y bydd eich cleient am gefnogi achos sy'n agos at eu calon. Gallwch gefnogi eu huchelgeisiau elusennol drwy esbonio'r opsiynau rhodd sydd ar gael a manteision pob un.


Mae'r opsiynau rhodd isod wedi'u rhestru yn nhrefn eu gwerth economaidd i'r elusen.






Cyfran ganrannol

Cyfran ganrannol o ystâd eich cleient a roddir i elusen. Y math hwn o rodd yw'r mwyaf gwerthfawr, oherwydd gall wrthsefyll chwyddiant. Gallwch drafod y ganran briodol yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol.



Cyfandaliad

Swm sefydlog a all golli ei werth dros amser wrth i gostau gynyddu. Er mwyn helpu'r rhodd i gadw ei werth, gallech gynnig ei fynegrifo.



Rhodd benodol

Eitem benodol, megis car, gemwaith neu eiddo.





Ymddiriedolaeth buddiant oes

Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i'ch cleient gadw eu hystad (neu ran o'u hystâd) am eu hoes, wrth gadw cyfalaf yr ystâd ar gyfer y buddiolwr elusennol.

Cwestiynau cyffredin

Pam mae Cancer Research UK yn talu am Ewyllysiau?

Rydym yn talu ffïoedd ysgrifennu Ewyllys ein partneriaid cyfreithiol er mwyn i'n cefnogwyr ysgrifennu neu ddiweddaru Ewyllys syml, yn y gobaith y byddant, yn gyfnewid, yn dewis cefnogi ein gwaith i drechu canser drwy addo rhodd.

Faint o'r gost y bydd Cancer Research UK yn ei thalu?

Mae ein Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau yn agored i unrhyw un dros 18 oed. Byddwn yn talu am gost Ewyllys syml sengl, Ewyllys ddrych syml, codisil sengl syml, neu godisil drych syml, gan fod hyn yn helpu i yrru incwm o roddion mewn Ewyllysiau drwy ddileu'r angen i gefnogwyr dalu am eu Ewyllys. Nid ydym yn talu am Ewyllysiau mwy cymhleth, am na fyddem yn cael enillion digonol ar fuddsoddiad.

Darllenwch ein Telerau ac Amodau Gweithwyr Cyfreithiol Proffesiynol, gan gynnwys gwybodaeth am ffioedd sefydlog, yn **cruk.org/LPterms**

£132 +TAW am
Ewyllys sengl syml

£187 +TAW ar gyfer
Ewyllys ddrych syml

£66 +TAW ar gyfer
codisil syml

£99 +TAW ar gyfer
codisil drych syml

Ysgrifennu Ewyllysiau ar gyfer Ewyllys fwy cymhleth?

Byddwn yn talu cost Ewyllys sengl syml, Ewyllys ddrych syml, codisil sengl syml neu godisil drych syml. Fodd bynnag, bydd angen rhywbeth mwy na hyn ar lawer o bobl. Cyn belled â bod eich cleient yn deall y costau ychwanegol y mae'n atebol amdanynt cyn drafftio'r Ewyllys, gallwch eu hanfonebu am weddill y gost sy'n ychwanegol at yr hyn y byddwn yn talu amdano.

Faint ddylai fy nghleientiaid ei addo i Cancer Research UK?

Nid ydym yn nodi faint y dylai unrhyw un ei adael i ni. Gofynnwn i chi esbonio i'ch cleientiaid fod Cancer Research UK yn talu am gost Ewyllys syml yn y gobaith y byddant yn gadael rhodd yn gyfnewid. Gofynnwn hefyd i chi esbonio manteision gadael cyfran ganrannol, yn hytrach na chyfandaliad.

Gall eich cleientiaid ofyn am eu Canllaw Rhoddion mewn Ewyllys am ddim yn **cruk.org/pledge**. Anogwch nhw i gysylltu â ni os hoffent ragor o gymorth.

A all fy nghleientiaid ddefnyddio'r Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau fwy nac unwaith?

Gallant. Rydym yn cydnabod y gallai fod angen i gleient ddiwygio'u Hewyllys fwy nag unwaith, neu y gallent ddewis gwneud hynny. Byddem yn gwerthfawrogi, fodd bynnag, pe gallech roi gwybod i ni os yw cleient yn gofyn i ddefnyddio'r gwasanaeth fwy na thair gwaith.

A all fy nghleient adael rhodd nawr yn hytrach na rhodd yn eu Hewyllys?

Er ein bod yn ddiolchgar iawn am bob rhodd, mae rhoddion mewn Ewyllysiau yn arbennig o werthfawr gan eu bod yn ein helpu i gynllunio ein buddsoddiadau ymchwil yn y dyfodol. Rydym hefyd dan rwymedigaeth i'r Comisiwn Elusennau i sicrhau bod y Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau yn gynnyrch codi arian sy'n fasnachol hyfyw, ac mae'r costau cysylltiedig yn ddefnydd da o roddion ein cefnogwyr wrth gynhyrchu rhoddion mewn Ewyllysiau.


Sut ydw i'n derbyn fy ffi?

Nid ydym bellach yn derbyn ffurflenni papur. Gallwch gyflwyno'ch ffurflen rhodd wedi'i chwblhau ac anfoneb yn **cruk.org/legalhub**

Sicrhewch eich bod yn llenwi'r holl feysydd ac yn lanlwytho eich anfoneb, neu ni fyddwn yn gallu prosesu'ch cais o fewn ein cyfnod talu 45 diwrnod.

Pam nad yw bellach yn cael ei alw'n Wasanaeth Ewyllys Am Ddim?

Gwrandawom ar adborth gan ddefnyddwyr a darparwyr y gwasanaeth, a ddangosodd nad oedd llawer o bobl sy'n defnyddio ein Gwasanaeth Ewyllys Am Ddim yn ymwybodol ein bod ni'n talu ffioedd y cyfreithiwr am ysgrifennu'r Ewyllys. Rydym wedi newid yr enw ac wedi gwella'r wybodaeth ategol i'w gwneud yn gliriach ein bod yn talu'r ffioedd cyfreithiwr am ysgrifennu'r Ewyllys fel budd i'n cefnogwyr, yn y gobaith y byddant yn dewis gadael rhodd i ni yn gyfnewid.



Manteision ein Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau

Gwella eich cynnig i gleientiaid

Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyfle i ymgysylltu â chleientiaid newydd a meithrin perthnasoedd.

Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Byddwch yn gwella eich enw da a'ch cyfrifoldeb cymdeithasol drwy weithio mewn partneriaeth â phrif elusen ganser y DU.

Marchnata cenedlaethol

Mae gennym galendr helaeth o weithgarwch i hyrwyddo rhoddion mewn Ewyllysiau, gan gynnwys hysbysebion teledu a radio, a thaith stiwardiaeth wedi'i theilwra i gefnogwyr.

Digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus (CPD)

Gallwch ymuno â rhwydwaith o weithwyr cyfreithiol proffesiynol a chwmnïau o'r un feddylfryd ar gyfer ein digwyddiadau CPD rheolaidd.

Cymorth ymroddedig

Mae ein tîm arbenigol o reolwyr partneriaethau cymynrodd rhanbarthol bob amser wrth law i gynorthwyo â'ch ymholiadau.

Mwy o ymwybyddiaeth o'ch cwmni

Rydym yn rhestru'r holl weithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n cymryd rhan ar ein gwefan, ac yn ceisio cynnwys cymaint â phosib mewn taflenni hyrwyddo, postiadau a digwyddiadau.

Effaith leol a byd-eang

Byddwch yn darparu cymorth angenrheidiol i bobl yn eich cymuned leol, wrth helpu i ariannu ymchwil arloesol sy'n achub ac yn gwella bywydau ledled y byd.

Dyfarniadau a chydnabyddiaeth

Rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth wrth hwyluso rhoddion mewn Ewyllysiau, ac fel arwydd o'n gwerthfawrogiad, byddwch yn derbyn tystysgrifau a chydnabyddiaeth ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, fel y gall pawb weld y gwaith gwych rydych yn ei wneud.

> “Mae'r Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau wedi ein galluogi i gynnig gwasanaeth fforddiadwy a dibynadwy i'n cleientiaid, a chytuno ar gyllid cynaliadwy yn y dyfodol ar gyfer Cancer Research UK.
>
> Rydym yn deall pwysigrwydd cymynroddion elusennol i allu i gynllunio a fforddio prosiectau ymchwil yn y dyfodol, ac rydym yn falch o fod yn gysylltiedig â gwaith amhrisiadwy Cancer Research UK."
>
> **Emma Brice**, Neilsons Solicitors

Y cymorth a ddarparwn

Byddwn yn rhoi popeth sydd ei angen arnoch i wneud gadael rhodd mewn Ewyllys i Cancer Research UK mor syml â phosib i chi a'ch cleientiaid.



Mae ein **tîm ymroddedig** o reolwyr partneriaethau cymynrodd ledled y wlad yma i'ch helpu ar bob cam o'r ffordd. Bydd gennych gyswllt penodol a all ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gennych am y gwasanaeth.



Bydd ein deunyddiau gwybodaeth **ar-lein** ac **all-lein** yn cefnogi eich sgyrsiau â darpar erneswyr.



Gallwch lawrlwytho **deunyddiau digidol** o **cruk.org/legalmaterials**



Rydym yn darparu **hyfforddiant** i weithwyr cyfreithiol proffesiynol yn eich cwmni a fydd yn defnyddio ein gwasanaeth. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno gan eich rheolwr partneriaethau cymynrodd, a bydd yn cynnwys deunydd i gefnogi sgyrsiau â darpar roddwyr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch **LPMs@cancer.org.uk**



Tommy, sydd bellach yn rhydd rhag canser, gyda'i ŵyr

CANCER RESEARCH UK

Gyda'n gilydd rydym yn curo canser

Diolch am helpu i drechu canser ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

cruk.org/legalhub

Registered with Cofrestrwyd gyda'r
FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

Cyfeiriad Cofrestredig: 2 Redman Place, Llundain E20 1JQ. Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089464), Yr Alban (SC041666), Ynys Manaw (1103) a Jersey (247). Cwmni Cofrestredig cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr (4325234).

FSC www.fsc.org
RECYCLED
Paper made from recycled material
FSC® C007810

FWSBOKWAL